Ein heffaith yn 2017/18

# Y gwahaniaeth a wnawn yng Nghymru



cyngor ar bopeth

**Effaith Cyngor ar Bopeth lleol Cymru**

# Ni yw Cyngor ar Bopeth.

Bob blwyddyn mae miloedd o bobl yn dod atom am help i ddatrys eu problemau.

Mae hyn yn golygu ein bod ni'n rhan bwysig o'r gymuned, a'n bod yn deall anghenion lleol.

Rydym yn defnyddio hyn i addasu'n gwasanaethau a helpu i wella polisïau ac arferion lleol.

**£27 miliwn**

wedi'i arbed gan y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus y llynedd

- bron i £2 am bob £1 a fuddsoddwyd yn ein gwasanaeth

# Dyma Nina

Mae Nina'n enghraifft o rywun a gafodd gymorth gennym ni.

Y llynedd, fe welson ni 102,000 o bobl gyda thros 405,000 o broblemau. Y problemau mwyaf oedd budd-daliadau a chredydau treth a dyledion. Roedd problemau eraill yn cynnwys gallu a gwasanaethau ariannol; cyflogaeth a thai.

Mae stori Nina'n dangos sut rydym yn helpu pobl i ddatrys eu problemau, a pham mae hyn yn bwysig.



# Ein gwaith

Rydym yn helpu pobl gyda phob math o broblemau yn cynnwys problemau gyda thai, dyledion, budd-daliadau, cyflogaeth, perthnasoedd a hawliau defnyddwyr.

Weithiau bydd angen cymorth ar bobl gyda mwy nag un broblem.

Roedd Nina mewn trafferth – roedd hi ar ei hôl hi gyda'i rhent.

Roedd y bygythiad o gael ei throi allan o'i chartref yn ei gwneud yn bryderus iawn.

Roedd y straen yn gwaethygu ei chyflwr iechyd hefyd.

# Sut rydym ni'n helpu

Bu Sam, cynghorydd gwirfoddol, yn helpu Nina gyda'i phroblem. Clywodd ganddi ei bod wedi newid swydd yn ddiweddar.

Roedd hyn wedi rhoi mwy o bwysau ar ei sefyllfa ariannol, a dyna pam roedd hi'n cael trafferth i dalu ei rhent.

Mae pobl yn defnyddio ein gwasanaeth mewn sawl ffordd: wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, drwy sgwrsio ar y we ac ar e-bost.

Gallwn ymdrin â'r rhan fwyaf o broblemau sydd gan bobl, gan addasu'n cyngor i'w hanghenion



Helpodd Sam Nina i ysgrifennu llythyr at ei landlord a threfnu cynllun talu. O ganlyniad, rhoddodd y landlord y gorau i'w fwriad i'w throi allan o'i chartref.

Gyda'i gilydd, aethant ati i lunio cyllideb i helpu Nina i dalu ei dyledion eraill a gwneud y gorau o'i hincwm.

Dywedodd Nina ei bod hi ar gontract oriau hyblyg, felly helpodd Sam hi i ddeall ei hawliau gwaith yn well.

# Mae ein cyngor yn effeithiol

Dyw problemau ddim yn digwydd ar eu pen eu hunain, ac fe allan nhw gael canlyniadau difrifol.
Mae eu datrys yn atal y sefyllfaoedd hyn rhag gwaethygu.

Rydym yn helpu miloedd o bobl fel Nina – mae 90% yn dweud na fydden nhw wedi gallu ymdopi hebddom ni.

**7 o bob 10**

yn cael cymorth i ddatrys eu problem

*Ymchwil canlyniadau ac effaith, 2017 – Cymru*

# Y gwahaniaeth mae hyn yn ei wneud

Mae effaith ehangach cyngor – beth rydym yn ei gyflawni o ganlyniad i ddatrys problemau a darparu cymorth – yr un mor bwysig.

Dywed **89%** fod cyngor wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Ar ôl cael cyngor gennym, roedd sefyllfa ariannol Nina'n fwy sefydlog.

Roedd hi'n pryderu llai, a'i hiechyd corfforol yn well. Doedd hi ddim angen gwasanaethau iechyd ychwanegol mwyach.

Roedd hi hefyd yn teimlo'n fwy hyderus a gwybodus am sut i ymdrin â phroblemau tebyg yn y dyfodol.

*Ymchwil canlyniadau ac effaith, 2017 – Cymru*

# Ein heffaith

**8 o bob 10**
yn teimlo llai o straen,
a ddim mor isel neu bryderus

**Bron i 1 o bob 2**
â mwy o arian neu
fwy o reolaeth dros eu harian

**1 o bob 2**
mewn sefyllfa fwy diogel
o ran tai

**Bron i 3 o bob 5**
wedi teimlo bod eu
hiechyd corfforol wedi
gwella

**3 o bob 10**
yn ei chael hi'n haws i wneud
eu swydd neu ddod o hyd i
swydd

**Bron i 3 o bob 5**
yn teimlo bod ganddynt
berthynas well ag eraill

**2 o bob 3**
yn ei chael hi'n haws
ymdopi o ddydd i ddydd

*Ymchwil canlyniadau ac effaith, 2017 – Cymru*

# Pam mae datrys problemau'n bwysig

Heb eu datrys, gall problemau effeithio ar y gymuned hon, nid ar yr unigolyn yn unig.

Mae eu datrys yn sicrhau gwerth sylweddol i gymdeithas.

- **Mae dros 9 o bob 10 person** a helpwn yn dweud fod eu problem wedi cael effaith negyddol ar eu bywyd
- **Doedd 1 o bob 5** ddim yn teimlo'n hyderus i gymryd camau i ddatrys eu problem cyn cael cyngor
- **Mae 1 o bob 3** yn dod atom pan maen nhw angen gweithredu ar frys

*Ymchwil canlyniadau ac effaith, 2017 – Cymru*

# Ein gwerth i gymdeithas

**£27 miliwn**
o arbedion i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus (manteision ariannol)

**£153 miliwn**
mewn manteision economaidd a chymdeithasol ehangach (gwerth cyhoeddus)

**£234 miliwn**
mewn gwerth ariannol i'r bobl rydym yn eu helpu (canlyniadau penodol i unigolion)

# Sut rydym yn cyfrif ein gwerth ariannol

Mae'n amhosibl rhoi gwerth ariannol ar bopeth a wnawn – ond rydym wedi gwneud, ble gallwn.

Rydym wedi defnyddio model a gymeradwywyd gan y Trysorlys i wneud hyn.

- Cadw pobl mewn gwaith neu eu helpu yn ôl i waith
- Atal pobl rhag cael eu troi allan o'u tai a digartrefedd statudol
- Lleihau'r galw am wasanaethau iechyd meddwl a meddyg teulu
- Gwella llesiant meddwl a gweithredu cadarnhaol
- Gwella perthynas o fewn teuluoedd

O'n gwybodaeth reoli gadarn, rydym hefyd wedi ystyried y manteision ariannol i'r bobl rydym yn eu helpu.

# Ein gwerth i'r gymuned hon

Mae ein harbedion i'r pwrs cyhoeddus yn cynnwys:

**£4 miliwn**
o arbedion gan lywodraeth leol, drwy leihau digartrefedd

Mae sicrhau cymaint o incwm â phosib i'r rhai a helpwn yn atal ymyrraeth fwy costus.

Mae hyn yn helpu i leihau anawsterau ariannol, yn hyrwyddo cynhwysiant ac o fudd i'r economi.

Dim ond un elfen o'n gwerth go iawn yw hyn. Rydym yn gwneud y canlynol hefyd:

- helpu cleientiaid i ymdrin â phrosesau lleol, fel newidiadau i'r system fudd-daliadau
- helpu i aildrefnu dyledion rhent awdurdodau lleol a'r dreth gyngor, a lleihau'r costau gweinyddol cysylltiedig

# Dyma Sam

Mae pobl fel Sam yn rhoi eu hamser, sgiliau a phrofiad i'n galluogi ni i gyrraedd cymaint o bobl ag y gallwn.

Mae yna fanteision sylweddol iddyn nhw hefyd, fel rhoi hwb i'w sgiliau cyflogadwyedd a gwella eu llesiant.



# Effaith Cyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru

Rhagor o wybodaeth: citizensadvice.org.uk/impact